# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Cynlluniau a Ffioedd Parcio** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig Ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10fed Chwefror 2026** |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 I gymeradwyo a galluogi'r Gwasanaeth Parcio i fwrw 'mlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol, sef:

1.1.1 Ymestyn oriau gorfodaeth meysydd parcio arhosiad byr o 10:00 hyd at 16:30 i 9:00 hyd at 17:00.

1.1.2 Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2.

1.2 I gymeradwyo gorchymyn parcio newydd sydd yn cysoni trefniadau cyfredol a chynnwys y newidiadau uchod.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Er mwyn diweddaru'r strategaeth barcio fel y gellir gweithredu'r cynlluniau sydd eisoes yn ddyledus, a sicrhau bod yr Adran yn gallu cyflawni'r lefel incwm disgwyliedig.

2.2 Rhaid cydnabod bod parcio yn medru bod yn fater cynhennus a bod cynigion ar gyfer rheoli parcio yn medru ysgogi teimladau cryf o bersbectif personol a lleol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y darlun sirol ac mae cyflwyno'r cynlluniau yn anorfod er mwyn cynaliadwyedd ariannol yn y cyfnod heriol hwn o ran cyllidebau'r awdurdod.

2.3 Gan fod y targed incwm presennol eisoes yn cynnwys y cynnydd byddai yn deillio o weithredu yr ymyraethau a gyfeirir ato yn 1.1.1 a 1.1.2 os na cyflwynir rhain bydd hyn yn golygu diffyg oddeutu £238,000 (£78,000+£160,000).

2.4 Mae hanfodol fod y gorchmynion parcio sydd yn ei lle yn gywir, cyfredol a chyson. Dyma yw'r sail gyfreithiol i godi tâl, monitro, gorfodi a rheoli'r meysydd parcio talu ac arddangos.

2.5 Ein bwriad byddai bwrw mlaen gyda'r paratoadau er mwyn gweithredu'r newidiadau o 1af Ebrill 2026.

## 3. Cyflwyniad

3.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i Aelodau'r Cabinet ar yr adborth a dderbyniwyd yn dilyn y cyfnodau ymgynghori statudol mewn perthynas â chynlluniau arbedion 1.1.1 (Ymestyn Oriau Talu Ffioedd Parcio) a 1.1.2 (Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2), ynghyd â chrynodeb o'r ystyriaeth a roddwyd i'r sylwadau a gyflwynwyd.

Yn unol â chyfarwyddyd y Cabinet yn Hydref 2024 i fwrw ymlaen gyda'r cyfnodau ymgynghori statudol, rydym bellach mewn sefyllfa i roi diweddariad ffurfiol i Aelodau'r Cabinet ar yr adborth a dderbyniwyd.

3.2 Mae'r cynlluniau dan sylw yn deillio o'r gwaith ehangach a wnaed gan y Cyngor i ymateb i'r sefyllfa ariannol heriol barhaus, lle mae gwasanaethau ar draws y sefydliad wedi gorfod adnabod mesurau arbedion a chynyddu incwm er mwyn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol sylweddol. Cyflwynwyd y pecyn cychwynnol o gynigion gerbron Aelodau'r Cabinet mewn adroddiad ar 15 Hydref 2024, a nododd yn glir fod targed incwm ffioedd parcio'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i chwyddiant blynyddol cyfansawdd.
Gweler **Atodiad A** am gopi o'r Adroddiad gyda theitl 'Cynlluniau a Ffioedd Parcio'.

3.3 Amlygwyd yn yr adroddiad gwreiddiol fod gwir incwm parcio ar gyfer 2023/24 oddeutu £2.1 miliwn, sef tua £590,000 yn is na'r targed ar y pryd. Rhagwelwyd hefyd, pe bai'r trefniadau yn parhau heb newidiadau, y byddai'r tan-gyflawniad yn cynyddu i dros £870,000 yn 2024/25. O ganlyniad, cyflwynwyd cyfres o gynlluniau arbedion a chynigion cynyddu ffioedd er mwyn lleihau'r bwlch hwn.

3.4 Fel rhan o'r pecyn hwn, cymeradwywyd cynlluniau gan y Cabinet, gyda'r rhain yn anelu i gynhyrchu oddeutu £57,000 o incwm ychwanegol y flwyddyn drwy gynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd a chynyddu prisiau tocynnau parcio blynyddol a lleol. Daeth y cynlluniau hyn i rym ym mis Ebrill 2025.

3.5 Yn ogystal â'r cynlluniau penodol hyn, cytunwyd yn yr adroddiad gwreiddiol i gynyddu holl ffioedd parcio 40% o fis Ebrill 2025, gyda'r bwriad o gynhyrchu hyd at £800,000 o incwm ychwanegol y flwyddyn. Mae'r newid yma yn weithredol ers dechrau'r flwyddyn ariannol presennol.

3.6 Mae'r tabl dilynol yn cynnig diweddariad am statws y cynlluniau hyd yn hyn:

| Teitl y Cynllun | Amcan Cyfanswm Incwm ychwanegol | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd | £40,000 | Aelodau Cabinet wedi cymeradwyo – Gweithredol ers 01/04/2025 |
| Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn | £17,000 | Aelodau Cabinet wedi cymeradwyo – Gweithredol ers 01/04/2025 |
| Cynyddu ffioedd holl feysydd parcio Amgylchedd | £800,000 | Aelodau Cabinet wedi cymeradwyo – Gweithredol ers 01/04/2025 |
| Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 | £160,000 | Aelodau Cabinet wedi cymeradwyo a galluogi i fwrw mlaen ond angen ystyriaeth bellach yn dilyn cyfnod ymgynghori |
| Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor | £78,000 | Aelodau Cabinet wedi cymeradwyo a galluogi i fwrw mlaen ond angen ystyriaeth bellach yn dilyn cyfnod ymgynghori |
| **Cyfanswm:** | **£1,095,000** | |

3.7 Fel y gwelwch, cafodd rhai o'r cynlluniau yma eu derbyn y llynedd, ac ers hynny, mae'r cynlluniau oedd yn weddill wedi bod yn sail ymgynghoriad pellach.

3.8 Mae cynlluniau 1.1.1 a 1.1.2 uchod yn ffurfio cam pellach o'r un pecyn ariannol. Mae cynllun 1.1.1 (Ymestyn Oriau Codi Ffioedd Parcio mewn Meysydd Parcio Arhosiad Byr) wedi'i amcangyfrif i gyfrannu tua £78,000 y flwyddyn, tra bod cynllun 1.1.2 (Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2) yn rhagweld incwm ychwanegol o tua £160,000 y flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu tua £238,000 o incwm ychwanegol ac yn rhan allweddol o'r ymdrech i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Gwasanaeth Parcio.

3.9 Gyda'i gilydd, mae'r holl fesurau hyn wedi'u llunio i gyfarch targed incwm blynyddol o oddeutu £2.9 miliwn, sydd yn parhau i gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant, ac yn lleihau'r pwysau sylweddol ar gyllideb y Cyngor.

## 4. Cefndir / Cyd destun y cynlluniau

4.1 Mae'r Adran Amgylchedd wedi adolygu trefniadau gorfodi meysydd parcio arhosiad byr ac yn nodi bod y gostyngiad yn yr oriau gorfodi a gyflwynwyd yn 2021 - o'r argymhelliad gwreiddiol o 9:00 hyd at 17:00 i'r oriau presennol o 10:00 hyd at 16:30 - wedi arwain at golled incwm sylweddol. Ar sail data defnydd meysydd parcio cyn 10:00 ac ar ôl 16:30, amcangyfrifir bod y Cyngor yn colli tua £78,000 y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r Adran yn argymell ymestyn yr oriau gorfodi yn ôl i 9:00 hyd at 17:00 ar gyfer meysydd parcio arhosiad byr Band 1 a 2 er mwyn gwella cydymffurfiaeth ac adfer incwm.

4.2 Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi adolygu strwythur ffioedd meysydd parcio arhosiad hir Band 2 yn dilyn nifer o gwynion gan ddefnyddwyr. Pan gyflwynwyd y strwythur newydd yn 2021, cafodd yr opsiynau eu lleihau i ddwy ffi, sef £5 am 12 awr a £10 am 24 awr - ond mynegwyd pryderon nad oedd hyn yn addas ar gyfer arosiadau byrrach nac yn fforddiadwy i ddefnyddwyr lleol. Er mwyn ymateb i'r adborth hwn, ychwanegwyd ffioedd o £1 am 2 awr a £2 am 4 awr, ond mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar y rhagolygon incwm gwreiddiol. Ar ôl adolygu'r sefyllfa, argymhellir dileu'r ffi presennol £1.40 am 2 awr yn gyfan gwbl a chynyddu'r ffi 4 awr presennol o £2.80 i £3.50. Yn ôl modelu ariannol diweddar, gallai'r addasiadau hyn gynhyrchu tua £160,000 o incwm gros ychwanegol.

4.3 O ystyried y sefyllfa ariannol a'r angen i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth, argymhellir bod Aelodau'r Cabinet yn cymeradwyo gweithredu'r ddau gynllun: ymestyn yr oriau gorfodi ym meysydd parcio arhosiad byr i 9:00 tan 17:00 ac addasu strwythur ffioedd arhosiad hir Band 2 fel y nodir uchod.

## 5. Gorchymyn Parcio Newydd

5.1 Yn ogystal â'r gwaith ar y cynlluniau arbedion, mae'r Adran Amgylchedd wedi llunio Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd newydd (hy meysydd parcio dan reolaeth y Cyngor). Crëwyd y gorchymyn gwreiddiol yn 1997 ac mae nifer o orchmynion bychain ac amrywiol wedi'u gwneud ers hynny, gan arwain at drefniadau cymhleth dros amser.

5.2 Mae'r gorchymyn newydd yn cysoni'r trefniadau presennol mewn un ddogfen glir a dealladwy, ac mae'r newidiadau sy'n deillio o'r cynlluniau arbedion wedi'u hymgorffori ynddo. Mae copi o'r Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd newydd wedi'i gynnwys fel **Atodiad B** i'r adroddiad hwn.

5.3 Mae'r gorchymyn newydd sy'n ymgorffori'r cynlluniau uchod wedi mynd drwy'r broses ymgynghori statudol lawn, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gyda chefnogaeth a chyngor parhaus yr Adran Gyfreithiol, gan sicrhau bod y trefniadau arfaethedig yn gadarn o safbwynt cyfreithiol ac yn bodloni'r holl ofynion ffurfiol cyn eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo.

## 6. Crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd

6.1 Cychwynnwyd y broses ymgynghori, gyda'r cam cychwynnol yn digwydd ar 06/11/2025, pan rannwyd copïau o'r gorchymyn newydd, yr atodiadau perthnasol a'r llythyr eglurhaol gyda Heddlu Gogledd Cymru, y Gymdeithas Cludiant Nwyddau, y Gymdeithas Cludo Ffyrdd, Prif Swyddog yr Ymddiriedolaeth GIG, Awdurdod Tân ac Achub, Aelodau Lleol yn yr ardaloedd a effeithir gan y newidiadau, a Chynghorau Cymuned neu Dref yn yr ardaloedd hynny. Roedd y cyfnod ymgynghori ar agor tan 28/11/2025.

6.2 Penderfynwyd bwrw ymlaen i'r ail gyfnod ymgynghori, a gosodwyd copi o'r gorchymyn newydd, yr atodiadau a'r rhybudd o fwriad mewn man amlwg yn y meysydd parcio a effeithir ar 20/12/2025, ac ar wefan y Cyngor. Roedd copïau hefyd ar gael yn y llyfrgelloedd ac yn Siop Gwynedd. Trefnodd yr Adran Gyfreithiol i hysbysebu'r wybodaeth berthnasol yn y papurau newydd. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 26/01/2026.

6.3 Derbyniwyd ystod eang o sylwadau yn ystod y cyfnodau ymgynghori. Roedd y prif themâu yn cynnwys pryderon ynghylch effaith ymestyn oriau gorfodaeth ar ddefnyddwyr lleol a busnesau, ynghyd â sylwadau ar fforddiadwyedd a hyblygrwydd y strwythur ffioedd arhosiad hir.

6.4 Nodir hefyd fod ambell i sylw a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwneud â ffioedd parcio yn gyffredinol neu bolisi parcio'r Cyngor yn ehangach yn hytrach nac ymateb yn uniongyrchol i'r newidiadau arfaethedig dan sylw. Yn ogystal, cyflwynwyd rhai sylwadau yn dilyn camddealltwriaeth ynghylch natur a chwmpas y cynigion penodol oedd dan ymgynghori. Lle bo'n briodol, cafodd y sefyllfa ei hegluro i'r awduron, ac mae'r cyfathrebiad hwnnw wedi'i gofnodi yn **Atodiad C**. Er hyn, rhoddwyd ystyriaeth briodol i bob sylw a dderbyniwyd fel rhan o broses ymgynghori dryloyw a chynhwysfawr.

## 7. Ystyriaeth o'r adborth

7.1 Rhoddwyd ystyriaeth lawn a manwl i'r holl adborth a dderbyniwyd. Er bod y sylwadau'n adlewyrchu pryderon dealladwy, yn enwedig o safbwynt lleol, mae'r asesiad cyffredinol yn dangos bod y cynlluniau arfaethedig yn rhesymol, yn gymesur ac yn angenrheidiol. Mae hyn yn y cyd-destun na wnaeth y cynnydd cyffredinol mewn ffioedd o 40% a gyflwynwyd i'r ffioedd parcio ac arddangos ar y 1 Ebrill 2025 arwain at adborth nac adwaith anffafriol.

7.2 Byddai peidio â gweithredu'r cynlluniau hyn yn tanseilio gallu'r gwasanaeth i gyrraedd ei dargedau incwm ac yn cynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor yn ehangach.

7.3 Er i rai ymatebwyr i'r ymgynghoriad awgrymu y dylid gwneud eithriadau neu drin rhai ardaloedd yn wahanol i eraill, daethpwyd i'r casgliad nad yw hynny'n ymarferol nac yn deg. Byddai dull o'r fath yn tanseilio egwyddorion cysondeb, tegwch a thryloywder, ac yn creu cynsail anodd ei gynnal ar draws y Sir.

Gwelwch **Atodiad C** am grynodeb o'r adborth a dderbyniwyd.

## 8. Cyd-destun ariannol

8.1 Mae ffioedd parcio yn ffrwd incwm bwysig i'r Cyngor ac yn cyfrannu'n sylweddol at gyllideb y Gwasanaeth Parcio. Ar hyn o bryd, mae'r targed incwm blynyddol o ffioedd parcio oddeutu £2.9 miliwn, gyda'r targed hwn yn parhau i gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

8.2 O ganlyniad i'r pwysau ariannol parhaus a'r angen i gyfarch y targed incwm cynyddol hwn, gweithredwyd cynnydd o 40% i ffioedd parcio ym mis Ebrill 2025. Mae'r cynlluniau sydd eisoes wedi'u gweithredu, ynghyd â'r ddau gynllun sydd bellach yn destun ystyriaeth gan Aelodau'r Cabinet heddiw, yn ffurfio pecyn cydlynol o fesurau sydd wedi'u cynllunio i gyfarch y targed incwm a sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.

## 9. Casgliad

9.1 Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhan hanfodol o becyn o fesurau sydd wedi'u llunio i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Gwasanaeth Parcio a chyfraniad teg at gau'r bwlch ariannol.

9.2 Er bod y Cyngor yn parhau i fod yn sensitif i effaith newidiadau ar gymunedau lleol, nid oes modd gwneud eithriadau na thrin rhai ardaloedd yn wahanol i eraill heb danseilio cysondeb polisi ac amcanion ariannol y gwasanaeth.

9.3 Nodir yr adborth a dderbyniwyd a'r ystyriaeth a roddwyd iddo, a gofynnir i Aelodau'r Cabinet gefnogi bwrw ymlaen â gweithredu'r gorchymyn newydd sydd yn cynnwys cynlluniau 1.1.1 a 1.1.2 yn unol â'r cynigion a amlinellir.

## 10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

10.1 Er nad ydym yn cynyddu'r holl ffioedd y tro hwn, dylai'r cynnig i addasu'r ffioedd parcio gyd-fynd â saith nod llesiant y Ddeddf:

- **Cymru ffyniannus**: Drwy reoli ffioedd parcio'n ofalus, gall y cyngor gefnogi twf economaidd drwy annog pobl i ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol, gan gynhyrchu refeniw y gellir ei ail-fuddsoddi mewn gwelliannau seilwaith.

- **Cymru gydnerth**: Gall ffioedd parcio uwch annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, lleihau defnydd ceir, ac o ganlyniad lleihau allyriadau carbon. Mae hyn yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac yn cyfrannu at gymuned fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

- **Cymru iachach**: Gall annog dewisiadau amgen i deithio mewn ceir, megis cerdded, beicio, neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo ymarfer corff a lleihau llygredd aer, gan gyfrannu'n bositif at iechyd y cyhoedd.

- **Cymru sy'n fwy cyfartal**: Rhaid i'r polisi ystyried yr effaith ar grwpiau cymdeithasol-economaidd gwahanol. Dylid sicrhau nad yw unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn effeithio'n anghymesur ar unigolion incwm isel a bod opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy ar gael o hyd.

  Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r tocynnau parcio blynyddol a lleol sydd ar gael am brisiau rhesymol. Mae nifer o drigolion a phobl sydd angen defnyddio ein meysydd parcio'n ddyddiol yn manteisio ar y cyfle i brynu tocyn sydd yn profi'n werth am arian.

- **Cymru o gymunedau cydlynus**: Gall polisïau parcio wedi'u rheoli'n briodol wella bywiogrwydd canol trefi drwy leihau tagfeydd a gwneud ardaloedd yn fwy hygyrch a dymunol i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**: Trwy gymryd camau i leihau dibyniaeth ar geir, gall y cyngor gyfrannu at ymdrechion byd-eang i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, gan adlewyrchu ymrwymiad i gynaliadwyedd byd-eang.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**: Dylai strategaethau parcio hefyd ystyried eu heffaith ar fynediad at ddigwyddiadau a lleoliadau diwylliannol, gan sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu hyrwyddo a'u cadw.

10.2 Dylai'r cynnig i godi ffioedd parcio gyd-fynd â'r pump modd o weithio a nodir yn y Ddeddf:

- Rydym yn **cynnwys** trigolion a defnyddwyr gwasanaeth drwy dderbyn adborth. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau, cwynion, sylwadau a mewnbwn arall gan y cyhoedd, defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr ein meysydd parcio ar sail barhaus.

- Rydym yn **cydweithio** gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol Arall, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

  Ar lefel weithredol rydym yn cyd-weithio gyda 10 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru fel aelodau o PPCC (Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru) i gefnogi'r gweithrediad gorfodaeth drwy ddelio â heriau, taliadau a phrosesu'r holl rybuddion talu cosb a gyflwynir.

  Ar lefel strategol rydym yn rhoi mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy'r Cydbwyllgor Corfforaethol.

- Rydym yn edrych i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol drwy gydweithio yn agos gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Y bwriad yw optimeiddio'r defnydd o'r meysydd parcio i hwyluso mynediad a cefnogi cymunedau gwydn a economi leol byrlymus a llwyddiannus.

- Rydym yn ystyried yr **hirdymor** drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gwaith y Cydbwyllgor Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i sut mae strategaeth parcio a strwythur ffioedd parcio yn medru dylanwadu yn gadarnhaol ar dewisiadau a ymddygiadau teithio. Mae rhaglen ar waith i leoli pwyntiau gwefru ar cyfer ceir trydan yn ein meysydd parcio. Mae modd i dalu am barcio mewn meysydd parcio drwy Ap sydd yn adlewyrchiad yn newidiadau technegol yn ogystal a'r modd mae cwsmeriaid am dalu i barcio. Mae'r modd yma o dalu yn gynyddol boblogaidd.

- Mae natur y maes gwaith yn golygu angen i **integreiddio** gyda chyrff cyhoeddus eraill sydd yn cynnwys Awdurdodau Lleol eraill, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru.

## 11. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

11.1 Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio yn ystod y broses ymgynghori ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant.

### Camau nesaf

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r penderfyniadau, bydd yr Adran Amgylchedd yn bwrw ymlaen â'r trefniadau gweithredu, gan gynnwys cyfarwyddo'r adran gyfreithiol i hysbysebu rhybudd o fwriad, a sicrhau bod y newidiadau'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

## 12. Sylwadau Swyddogion Statudol

### Prif Swyddog Cyllid

Gallaf gadarnhau fod targed incwm y meysydd parcio yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant i adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau'r Cyngor, ac mae hyn yn cyflwyno her i'r gwasanaeth. Yn ogystal â hynny mae gwireddu cynlluniau'r arbed hanesyddol sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad hefyd yn cyflwyno her ychwanegol. Rwyf yn croesawu ymdrechion yr Adran Amgylchedd i fynd i'r afael â'r sefyllfa yma.

### Swyddog Monitro

*Fel y nodir yn yr adroddiad cynhaliwyd cyfnod ymgynghori ar y cynigion sydd yn y penderfyniad a geisir. Rwy'n fodlon fod yr adroddiad yn ymdrin a'r ymatebion yn briodol wrth gynnig penderfyniad*

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad A – Copi Adroddiad Cabinet Hydref 2024

Atodiad B – Copi Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd 2026

Atodiad C – Crynodeb adborth ac ymatebion

Atodiad Ch - Asesiad Cydraddoldeb